

Y Gymdeithas

Yng Nghymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Tachwedd 25, ceir sgwrs am hanes yr elusen Gisda gan Miss Sian Elen Thomas, Caernarfon.

Bydd croeso cynnes i aelodau ac unrhyw un arall sy'n dymuno dod i wrando ar y sgwrs.

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch am 2.30 o'r gloch brynhawn Mercher, Rhagfyr 4.

Bydd yno stondinau amrywiol ac os oes gennych nwyddau newydd neu bron yn newydd nad ydych eu heisiau, yna bydd y trefnwyr yn falch o'u cael ar gyfer y byrddau gwerthu.

Bydd yno hefyd stondinau cacennau a thuniau bwyd, a gwerthfawrogir pob cyfraniad tuag at y rheiny.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 24

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion Williams

Rhagfyr 1

Dim oedfa yn y bore
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Marcus Robinson

Rhagfyr 8

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Tachwedd 25: Cynhelir y Gymdeithas Undebol yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch.

Nos Fercher, Tachwedd 27: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 1: Ni fydd oedfa yn y bore. Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch, ac yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gwasanaethir gan y Parchg Marcus Robinson, Bethel.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fercher, Tachwedd 27: Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 1: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Williams, Llanfairfechan. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 1: Dim oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Ar ôl yr Oedfa Deulu bydd Cinio Cawl yn y festri er mwyn codi arian at Apêl Haiti.

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 1

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion Williams
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion Williams

Rhagfyr 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 568 – Dydd Sul, 24 Tachwedd 2013

Caethiwed

Ddechrau mis Gorffennaf y clywsom am Amanda Berry yn dianc o dŷ yn Cleveland, Ohio lle'r oedd hi a dwy wraig arall wedi eu cadw'n gaeth. Roedd hi wedi bod yn y tŷ am ddeng mlynedd a'r ddwy arall am naw ac un mlynedd ar ddeg. Roedd yn anodd credu y gallai'r fath beth ddigwydd mewn tŷ ar stryd ddigon cyffredin yn yr Unol Daleithiau.

Ddeufis yn ddiweddarach, daeth y sôn am gaethiwo pobl yn llawer nes atom pan gyhuddwyd chwech o ddynion o ardal Casnewydd, mewn dau achos gwahanol ddiwedd Medi, o gaethiwo a thrin dynion fel caethweision.

Ac ymhen deufis arall, clywsom yr wythnos ddiwethaf am dair gwraig yn dianc o dŷ yn Lambeth, Llundain, lle'r honnir iddynt gael eu cadw a'u trin fel caethweision am 30 o flynyddoedd. Mae'n ymddangos y gallasai'r fengaf o'r tair fod wedi ei geni hyd yn oed yn y tŷ hwnnw.

Tair enghraifft yn unig yw'r rhain o'r ffordd y caiff miloedd o bobl a phlant eu camdrin heddiw. Caiff llawer eu herwgipio, eu prynu a'u gwerthu, a'u trin fel caethweision. Yn 2007, rhoed sylw mawr i ddaucanmlwyddiant pasio Deddf Dileu'r Fasnach Gaethweision y bu William Wilberforce yn ymgyrchu mor frwd drosti yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mor drist yw gweld y camdriniaeth annynol hwn yn parhau yn ei cymdeithas honedig waraidd ni. Nid yw bodolaeth deddf yn golygu bod

y ddeddf honno'n cael ei pharchu. Mae pob Cristion yn gwybod hynny o'i brofiad ei hunan wrth gwrs. Mae deddf Duw wedi ei rhoi i ni, ond nid yw hynny'n golygu ein bod yn ei chadw fel y dylem.

Mae cyrff fel Cymorth Cristnogol, Y Cynghrair Efengylaidd a Byddin yr Iachawdwriaeth yn codi llais ar ran yr eglwysi yn erbyn y fasnach mewn pobl. Ceir hefyd fudiadau Cristnogol fel 'Hope for Justice' a 'Love 146' sy'n bodoli er mwyn gwrthwynebu'r fasnach honno. Maent yn gwneud gwaith da ac yn deilwng o'n gweddïau yn eu brwydr yn erbyn y drwg mawr hwn o fewn ein cymdeithas heddiw.

Mae'r hanesion hyn gwaetha'r modd yn ein hatgoffa o ba mor greulon y gall pobl fod at eraill. Mae'n anodd credu y gall pobl fod mor annynol wrth drin ei gilydd. Fedrwn ni ddim dechrau dychmygu'r creulondeb sydd y tu ôl i'r straeon hyn. Pwy fyddai'n dychmygu bod y fath bethau'n gallu digwydd yn ein cymdeithas wâr ni heddiw? Gweddiwn dros bobl sy'n cael eu dal yn gaeth, o olwg y byd, iddynt gael eu rhyddhau. Gweddiwn dros bawb sy'n gweithio er mwyn ceisio rhyddhau eraill, iddynt lwyddo yn eu hymdrech. Gweddiwn dros y rhai sydd wedi eu rhyddhau, iddynt allu ymdopi â'u rhyddid. Gweddiwn hyd yn oed dros y bobl hynny sy'n dal rhai cwbl ddiniwed yn gaeth, iddynt ddod i edifeirwch calon a rhoi heibio'r creulondeb dychrynlyd hwn.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad trwy'r dydd.

Byddaf yn arwain yr Oedfa Deulu yn Llanberis am 10.30 o'r gloch a'r oedfa am 5.00 o'r gloch. Wedi'r Oedfa Deulu bydd croeso i chi aros ar gyfer y Cinio Cawl Capel er budd Apêl Haiti.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan. Estynnwn groeso cynnes iddo'n ôl i Ddeiniolen unwaith eto. a diolch iddo ei gymorth a'i arweiniad.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig bawb sy'n methu â dod i'r oedfaon ar hyn o bryd.

Ethol Blaenoriaid

Yn ystod oedfa'r bore y Sul diwethaf cynhaliwyd pleidlais i ethol diaconiaid newydd i eglwys Ebeneser. Diolch i Miss Marian Jones am oruchwylio'r pleidlais a chyfrif y pleidleisiau.

Etholwyd Mr John Llewelyn Williams, Penygolwg a Mrs Eirlys Hughes, Coed Mawr. Ond mae'r ddau wedi ymateb trwy ddweud na allant dderbyn y swydd er yn gwerthfawrogi ymddiriedaeth yr eglwys ynddynt. Parchwn eu hymateb wrth gwrs, er y byddai'n dda gennym pe byddai'r ymateb yn wahanol.

Gan na lwyddwyd i ethol diaconiaid newydd, rwy'n awgrymu ein bod yn ffurfio 'pwyllgor eglwys' a fydd yn cynnwys oddeutu 6 o'r aelodau i drafod a threfnu gwaith ac addoliad yr eglwys. Cawn drafod hynny'n fuan a ffurfio'r pwyllgor erbyn dechrau'r flwyddyn newydd.

Plentyn y Nadolig

Mae bocsys esgidiau Ymgyrch Plentyn y Nadolig ar eu ffordd i'r gwahanol wledydd erbyn hyn. Aed â nhw i festri capel y Wesleaid yn Llandrillo yn Rhos ac erbyn dydd Gwener roedd yu gwaith o'u pacio mewn bocsys mawr yn barod i'w cludo dramor wedi ei orffen.

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch a lenwodd focs neu a gyfrannodd arian at y gwaith hwn eleni eto.

Dosbarth Beiblaidd

Caiff Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth ei gynnal yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch. nos Fercher, Tachwedd 27. Rydym yn edrych ar hyn o bryd ar y bobl sy'n cael eu canmol am eu ffydd yn Hebraeid 11. Nos Fercher, ffydd Sara, gwraig Abraham fydd yn cael sylw gennym.

Casgliad

Bydd swyddogion Cyngor Eglwys Deiniolen yn derbyn rhoddion tuag at Apêl Cymorth Cristnogol Y Pilipinas (Phillipes) o hyn hyd nos Sul nesaf. Diolch am bob cyfraniad. Gellir ei roi i swyddogion yr eglwys yn Neiniolen.

Efe

Cynhaliwyd 'CIC Sul Efe' ddydd Sul, diwethaf yn Y Ganolfan, Llanberis rhwng 11.30 a 1.00 o'r gloch.

Cafwyd ymateb gwych i'r diwrnod gan ysgolion Sul yr ardal, a daeth 48 o blant yno ynghyd â nifer dda o athrawon a rhieni. Daeth Steff a Gwenno Morris o Goleg y Bala i arwain gweithgareddau a dysgeidiaeth y diwrnod.

Dechreuwyd efo gemau Parasiwt a 'Scoop ball' yn y neuadd fawr ar gyfer y rhai dros 7 oed, a gwaith crefft ar gyfer-plant dan 6 oed yn yr ystafell bwyllgor. Yna ymgasglodd pawb yn yr ystafell bwyllgor lle croesawyd nhw gan Steff a Gwenno cyn chwarae'r gêm 'Brenin y Castell' a brofodd i fod yn boblogaidd iawn. Yna cyflwynwyd thema'r dydd, sef hanes Duw'n creu'r byd. Cafodd hwn ei gyflwyno mewn ffordd afaelgar a hwyliog, a gwnâi'r plant symudiadau a oedd yn cyfateb i'r gwahanol bethau a greodd Duw, fel tir, môr, anifeiliaid ac yn y blaen.

Cafwyd wedyn gêm a oedd yn helpu'r plant i gofio bod Duw wedi creu goleuni allan o dywyllwch. Wedyn am 12.15 o'r gloch aeth pawb i'r neuadd fawr i chwarae gêm, lle'r oedd rhaid i bawb wneud y symudiadau roedden nhw wedi eu dysgu wrth i wahanol eiriau gael eu galw allan. Aeth pawb ymlaen wedyn i ddylunio bisgedi efo eising o wahanol liwiau, a'r fisged orau yn cael gwobr.

Cafwyd egwyl sydyn wedyn, efo diod-ydd a bisgedi ar gael i bawb cyn i ni i gyd ddychwelyd i'r ystafell bwyllgor ar gyfer y sesiwn derfynol. Yn y sesiwn yma, er mawr syndod i bawb, taflodd Steff yr holl fisgedi deniadol a grëwyd gan y plant i mewn i'r bin. Gwnaeth hyn er mwyn pwysleisio'r ffaith ein bod ni i gyd wedi difetha creadigaeth berffaith Duw trwy ein pechod, ond bod Iesu wedi ei anfon i'n hachub, a bod angen i ni dderbyn ei faddeuant.

Daeth y diwrnod i ben efo cân o addoliad, 'Iesu dyn ni'n canu dy glod'. Peth arbennig iawn oedd gweld bron i 50 o blant yn canu mawl i Iesu! Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gefnogi'r diwrnod, ac yn enwedig i Ken Jones am ei garedigrwydd wrth iddo drefnu i ni gael defnyddio'r Ganolfan unwaith eto. Ein gobaith yw bod Duw rhywsut wedi gweithio yng nghalonau pob un o'r plant a'u tynnu nhw'n nes at Iesu.

Cinio Cawl Capel

ar ôl yr oedfa Deulu yn Capel Coch
HEDDIW

er budd Apêl Haiti Undeb yr Annibynwyr 2013-2014

Croeso i chi aros i ginio a chyfrannu unrhyw swm a ddymunwch at yr Apêl.